# PENDERFYNIADAU CYNHADLEDD 2024

| Rhif y Penderfyniad | TEITL | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| 1. | **Newid geiriad y Cyfansoddiad (Aelodaeth)** | Cyngor Cenedlaethol |
| 2. | **Newid geiriad y Cyfansoddiad (Tanysgrifiadau)** | Cyngor Cenedlaethol |
| 3. | **Newid geiriad y Cyfansoddiad (Enwebu ac ethol is-lywydd)** | Cyngor Cenedlaethol |
| 4. | **Newid geiriad y Cyfansoddiad (Adrannau)** | Cyngor Cenedlaethol |
| 5. | **Arholiadau TGAU newydd** | Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu |
| 6. | **Arweiniad ac Adnoddau Cymraeg ar gyfer y TGAU newydd** | Cynnig cyfansawdd: Adran Arweinwyr Ysgol a'r Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith |
| 7. | **Cyflwyno'r TGAU newydd – Gwneud i Gymru** | Adran Arweinwyr Ysgol |
| 8. | **Deallusrwydd Artiffisial** | Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu |
| 9. | **CYDAG** | Cymdeithas Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd |
| 10. | **Grant Cyflogau Athrawon** | Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith |
| 11. | **Oriau penodol mewn wythnos i Benaethiaid** | Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith |
| 12. | **Gwyliau** | Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith |
| 13. | **Arsylwadau Gwersi** | Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu |
| 14. | **Ymddygiad disgyblion a disgyblaeth** | Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu |
| 15. | **Hyblygrwydd swyddi** | Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu |
| 16. | **Cyllido ysgolion** | Adran Arweinwyr Ysgol |
| 17. | **Cyflog ac amodau gwaith tiwtoriaid a darlithwyr Cymraeg i Oedolion** | Cymdeithas Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd |
| 18. | **Cyllido darpariaeth Cymraeg i Oedolion** | Cymdeithas Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd |
| 19. | **Cymraeg i Oedolion – heriau (Cynnig cefnogaeth bellach)** | Cymdeithas Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd |
| 20. | **Cynnig Brys 1 Newid geiriad y Cyfansoddiad (amseriad y Gynhadledd)** | Cyngor Cenedlaethol |
| 21. | **Cynnig Brys 2 Newid geiriad y Cyfansoddiad (nifer yr Ymddiriedolwyr a chworwm cyfarfodydd Ymddiriedolwyr)** | Cyngor Cenedlaethol |

## PENDERFYNIADAU CYNHADLEDD FLYNYDDOL UCAC 2023

## A Newidiadau i Gyfansoddiad a/neu Drefniadaeth yr Undeb

**PENDERFYNIAD 1 Newid geiriad y Cyfansoddiad (Aelodaeth)**

Dileu'r cymalau isod o'r Cyfansoddiad yn Rheol 4 – Aelodaeth, (a) Aelodau Cyflawn (i):

- personau a gyflogir fel addysgwyr mewn unrhyw sefydliad addysg bellach, e.e. darlithwyr a hyfforddwyr
- personau sy'n cyflawni rôl addysgu mewn sefydliad addysg uwch, e.e. darlithwyr, myfyrwyr ymchwil sy'n ymgymryd â rhywfaint o waith addysgu

Cynnwys y cymal isod yn lle:

- personau a gyflogir fel addysgwyr, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch

(Cyngor Cenedlaethol)

*Pasiwyd y cynnig*

**PENDERFYNIAD 2 Newid geiriad y Cyfansoddiad (Tanysgrifiadau)**

Newid y mis yn y cymal isod o fis Mehefin i fis Rhagfyr:

(a) Yn unol â Rheol 4, dylai tanysgrifiad aelodau sy'n talu eu tâl aelodaeth blynyddol drwy siec neu arian parod ddod i law erbyn diwedd mis Mehefin bob blwyddyn. Caniateir i aelodau cyflawn sy'n dymuno tanysgrifio eu tâl aelodaeth drwy ddebyd uniongyrchol wneud hynny'n fisol gydol y flwyddyn.

(Cyngor Cenedlaethol)

*Pasiwyd y cynnig*

**PENDERFYNIAD 3 Newid geiriad y Cyfansoddiad (Enwebu ac ethol is-lywydd)**

Er mwyn newid y dyddiad i sicrhau y cylch blynyddol presennol, newid cymal Rheol 8, (a) (iii) o:

Cyflwynir cais pob aelod unigol ac enwebiadau Pwyllgor Gwaith y Cymdeithasau Sir i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 14 Rhagfyr bob blwyddyn. Mewn achos o dderbyn mwy nag un enwebiad bydd yntau wedyn yn trefnu etholiad trwy bleidlais bost.

i:

Cyflwynir cais pob aelod unigol ac enwebiadau Pwyllgor Gwaith y Cymdeithasau Sir i'r Ysgrifennydd Cyffredinol dim hwyrach na 6 wythnos cyn y Gynhadledd Flynyddol.  Mewn achos o dderbyn mwy nag un enwebiad bydd yntau wedyn yn trefnu etholiad trwy bleidlais bost.

Cynigiwyd gwelliant

Cyflwynir cais pob aelod unigol ac enwebiadau Pwyllgor Gwaith y Cymdeithasau Sir i'r Ysgrifennydd Cyffredinol dim hwyrach na 6 wythnos cyn y Gynhadledd Flynyddol.  Mewn achos o dderbyn mwy nag un enwebiad bydd yntau wedyn yn trefnu etholiad.

Cynigiwyd gwelliant ar y gwelliant

Cyflwynir cais pob aelod unigol ac enwebiadau Pwyllgor Gwaith y Cymdeithasau Sir i'r Ysgrifennydd Cyffredinol dim hwyrach na 6 wythnos cyn y Gynhadledd Flynyddol.  Mewn achos o dderbyn mwy nag un enwebiad bydd yntau wedyn yn trefnu etholiad, gan ddilyn y gofynion cyfreithiol perthnasol.

(Cyngor Cenedlaethol)

*Pasiwyd y gwelliant ar y gwelliant*

**PENDERFYNIAD 4 Newid geiriad y Cyfansoddiad (Adrannau)**

O Rheol 20 – Adrannau Eraill, hepgor (iv) yn y cymal canlynol, gan ail rifo v i vii fel eu bod yn rhifo iv i vi :

(a) Sefydlir yr Adrannau isod:

- (i) Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu
- (ii) Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith
- (iii) Adran i Arweinwyr Ysgol
- (iv) Adran Gyhoeddiadau a Chyfathrebu
- (v) Adran Addysg Bellach
- (vi) Adran Addysg Uwch
- (vii) Adran Gydraddoldeb

Hepgor cymal b (i):

(b) (i) Prif gyfrifoldebau'r Adran Gyhoeddiadau a Chyfathrebu fydd gofalu am holl gyhoeddiadau'r Undeb a materion cyfathrebu megis hysbysebion, deunyddiau

marchnata, arddangosfeydd a digwyddiadau. Bydd yr Adran yn cyflwyno adroddiad i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Datblygu er mwyn cael caniatâd y Pwyllgor ar faterion cyllid perthnasol.

Newid cymal (b) (ii) o:

(ii) Prif gyfrifoldebau'r Adrannau eraill fydd ymateb i ddogfennau ymgynghorol perthnasol ac argymell polisïau i'r Cyngor Cenedlaethol.

i:

(b) Prif gyfrifoldeb yr Adrannau fydd ymateb i ddogfennau ymgynghorol perthnasol ac argymell polisïau i'r Cyngor Cenedlaethol.

Cyngor Cenedlaethol

*(Pasiwyd y cynnig)*

**B Trefniadaeth Addysg a Chynnwys Addysg**

**PENDERFYNIAD 5 Arholiadau TGAU newydd**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru i sicrhau bod athrawon yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau pendant am y cymwysterau newydd a bod hyfforddiant digonol yn cael ei drefnu ar eu cyfer.

*Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 6 Arweiniad ac Adnoddau Cymraeg ar gyfer y TGAU newydd**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru i sicrhau bod arweiniad ac adnoddau digonol i athrawon ar gyfer y TGAU newydd, a hynny mewn da bryd. Mae'r Gynhadledd yn galw ar CBAC i sicrhau bod yr adnoddau Cymraeg yn barod ar yr un adeg â'r adnoddau Saesneg.

*Cynnig cyfansawdd – Adran Arweinwyr Athrawon a'r Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 7 Cyflwyno'r TGAU newydd – Gwneud i Gymru**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i oedi cyflwyno ton gyntaf y TGAU newydd am flwyddyn. Drwy wneud hynny, byddai'r holl bynciau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd a byddai'n sicrhau bod y trosglwyddiad o un system i'r llall yn un llyfn.

*Adran Arweinwyr Ysgol*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 8 Deallusrwydd Artiffisial**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i roi canllawiau clir a syml i ysgolion a disgyblion ynghylch y modd y gellir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, gan nodi'n ddiamwys beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol.

Cynigiwyd gwelliant

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i roi canllawiau clir a syml i staff a dysgwyr mewn sefydliadau addysgol ynghylch y modd y gellir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, gan nodi'n ddiamwys beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol.

*Pasiwyd y gwelliant (wedi i'r Cadeirydd ddefnyddio ei bleidlais fwrw)*

*Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu*

**PENDERFYNIAD 9 CYDAG**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ariannu CYDAG fel bod sicrwydd y bydd ei gwaith arloesol, megis Gyda'n Gilydd sy'n annog cydweithio rhwng ysgolion, yn parhau ac yn medru cael ei ddatblygu ymhellach.

*Cymdeithas Sir Fynwy Torfaen a Chasnewydd*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 10 Grant Cyflogau Athrawon**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu grant yn uniongyrchol i ysgolion ar gyfer cyflogau athrawon. Byddai hyn yn sicrhau swm penodol sydd wedi ei ddiogelu ar gyfer cyflogi athrawon.

*Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 11 Oriau penodol mewn wythnos i Benaethiaid**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod uchafswm oriau wythnosol yn cael ei osod ar gyfer athrawon a phenaethiaid yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

*Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 12 Gwyliau**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno hawl gwyliau a phenwythnosau gwarchodedig ar gyfer arweinwyr yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

*Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 13 Arsylwadau Gwersi**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar y sawl sy'n trefnu arsylwadau gwersi i sicrhau fod pob un sy'n arsylwi gwersi yn hyddysg yn yr iaith y mae'r wers honno'n cael ei chyflwyno ynddi.

*Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**Awgrymwyd hefyd y dylid newid geiriad y daflen wybodaeth 'Arsylwi gwersi' i nodi y cred UCAC y dylai'r sawl sy'n arsylwi gwersi fod yn hyddysg yn yr iaith y cyflwynir y wers.*

**PENDERFYNIAD 14 Ymddygiad disgyblion a disgyblaeth**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pendant i ymdrin â phroblemau disgyblaeth yn ein hysgolion, gan sicrhau bod ein hysgolion yn llefydd diogel i ddisgyblion a staff.

*Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 15 Hyblygrwydd swyddi**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system lle bo modd i athrawon gael diwrnod/au lles yn flynyddol, er mwyn eu galluogi i gael elfen o hyblygrwydd ac er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu mynychu digwyddiadau sydd o bwys personol iddynt ond sydd yn digwydd yn ystod tymor ysgol.

*Adran Arweinwyr Ysgol*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 16 Cyllido ysgolion**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sefyllfa gyllidol ysgolion o ddifrif, gan sicrhau tryloywder llwyr a gwneud yn siŵr bod arian digonol ar gael i ysgolion gyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol yn ogystal â darparu cymorth angenrheidiol arall i ddysgwyr.

*Adran Arweinwyr Ysgol*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 17 Cyflog ac amodau gwaith tiwtoriaid a darlithwyr Cymraeg i Oedolion**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cysondeb yn y modd y cyflogir tiwtoriaid a darlithwyr Cymraeg i Oedolion, gan sicrhau tâl, amodau gwaith a phensiwn teg.

*Cymdeithas Sir Fynwy Torfaen a Chasnewydd*

*(Pasiwyd y cynnig)*

**PENDERFYNIAD 18 Cyllido darpariaeth Cymraeg i Oedolion**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i arallgyfeirio peth cyllid canolog Cymraeg i Oedolion at ganolfannau/consortia lleol, er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth lleol.

*Cymdeithas Sir Fynwy Torfaen a Chasnewydd*

Cynigiwyd gwelliant

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau peth cyllid canolog ychwanegol Cymraeg i Oedolion at ganolfannau/consortia lleol, er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth lleol.

*(Pasiwyd y gwelliant)*

**C: Arall**

**PENDERFYNIAD 19 Cymraeg i Oedolion – heriau (Cynnig cefnogaeth bellach)**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gyngor Cenedlaethol UCAC i sefydlu adran newydd o fewn yr undeb, er mwyn trafod materion perthnasol sy'n ymwneud yn benodol â darlithwyr a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

*Cymdeithas Sir Fynwy Torfaen a Chasnewydd*

Cynigiwyd gwelliant

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gyngor Cenedlaethol UCAC i drafod sefydlu adran newydd o fewn yr undeb, er mwyn trafod materion perthnasol sy'n ymwneud yn benodol â darlithwyr a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

*(Gwrthodwyd y gwelliant)*

Cynigiwyd gwelliant ar y gwelliant

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gyngor Cenedlaethol UCAC i sefydlu fforwm o fewn yr undeb, er mwyn trafod materion perthnasol sy'n ymwneud yn benodol â darlithwyr a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

*(Pasiwyd y gwelliant ar y gwelliant)*

**CYNIGION BRYS**

## A Newidiadau i Gyfansoddiad a/neu Drefniadaeth yr Undeb

**PENDERFYNIAD 20 Newid geiriad y Cyfansoddiad (amseriad y Gynhadledd)**

Mae'r Cyngor yn Cenedlaethol yn galw ar y Gynhadledd i newid cyfansoddiad UCAC fel a ganlyn:

Yn 3a newid y geiriad o:

Cynhelir Cynhadledd Flynyddol yr Undeb yn ystod misoedd Mawrth, Ebrill, Mai neu Fehefin

i

Cynhelir Cynhadledd yr Undeb yn flynyddol

(Cynnig Brys)

*Pasiwyd y cynnig*

**PENDERFYNIAD 21 Newid geiriad y Cyfansoddiad (nifer yr Ymddiriedolwyr a chworwm cyfarfodydd Ymddiriedolwyr)**

Gelwir ar y Gynhadledd i newid Rheol 13 (a) o:

a) Etholir hyd at saith Ymddiriedolwr gan y Cyngor Cenedlaethol o blith aelodau neu gyn-aelodau'r Undeb

i:

a) Etholir hyd at naw Ymddiriedolwr gan y Cyngor Cenedlaethol o blith aelodau neu gyn-aelodau'r Undeb. Tymor gwasanaeth Ymddiriedolwr fydd tair blynedd. Gellid ail ethol Ymddiriedolwr am sawl cyfnod o dair blynedd.

Ac ychwanegu cymal (ff):

ff) Cworwm cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd 4.

(Cynnig Brys)

*Pasiwyd y cynnig*